CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**5 Gorffennaf 2022**
Teitl:	**Grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion/Cronfa'r Degwm**
Diben yr adroddiad:	**Diweddariad ar y grantiau cyfredol a ddyfarnwyd o Gronfa'r Degwm**
Er:	**Gwybodaeth**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Gareth Davies – Gwasanaethau Cyllid a Chaffael a'r Cynghorydd Clive Davies – yr Economi ac Adfywio**

1. Cefndir – Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion

Diben Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion yw ehangu'r amrywiaeth o gyfleusterau, gweithgareddau a chyfleoedd sydd ar gael yng Ngheredigion. Mae grantiau ar gael i Grwpiau Cymunedol, Cynghorau Cymuned neu Gymdeithasau Chwaraeon a Hamdden Gwirfoddol dilys. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor, gan gynnwys Canllawiau'r Cynllun a Ffurflenni Cais.

Mae'r cynllun yn cael ei redeg a'i gefnogi gan y gwasanaeth Cyllid a Chaffael a chaiff y ceisiadau eu hystyried gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael, gan ymgynghori â naill ai'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Gyllid a Chaffael a Diogelu'r Cyhoedd, neu'r Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y grantiau a gafodd eu dyfarnu a'u talu yn ystod 2021/22 mewn perthynas â chynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion.

Mae COVID19 wedi cael effaith fawr ar y grantiau a ddyfarnwyd ac a dalwyd yn ystod 2021/22. Gohiriwyd sawl cynllun cyfalaf ac ychydig iawn o grantiau refeniw a pholisi y gwnaed cais amdanynt – adlewyrchir hyn yn y wybodaeth a ddarperir isod.

2. Cyllideb Cyfalaf – Grantiau Cyfalaf a Ariannwyd gan y Cyngor

	Nifer y grantiau	£
Cyllideb wedi'i adolygu		180,000
Taliadau Grant Cyfalaf	17	(99,500)
Tanwariant		80,500

Mae Atodiad 1 yn nodi'r grantiau Cyfalaf a gafodd eu cymeradwyo a'u talu yn ystod y flwyddyn.

3. Cyllideb Refeniw – Cronfa'r Degwm

Mae cyllideb Grantiau Cymunedol Ceredigion yn cynnwys cyfran y Cyngor o incwm buddsoddi Cronfa'r Degwm. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod 2021/2022.

a) Grantiau a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn

	Nifer y grantiau	£
Dyraniad Gwreiddiol (Tybiannol)		30,000
Taliadau Grant Refeniw Cronfa Degwm Cymru	4	(16,867)
Tanwariant		13,133

Talwyd ac ariannwyd y grantiau canlynol o elfen Cronfa'r Degwm o Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion.

	£
Y Gyngres Geltaidd Cangen Cymru	1,959.00
Canolfan Deuluol Tregaron	6,958.00
Eglwys Sant Ioan Ystrad Meurig	6,750.00
Listen to the Voice of Fire	1,200.00
	16,867.00

b) Crynodeb
Dyma'r sefyllfa sydd ohoni o ran balans incwm buddsoddi Cronfa Degwm y Cyngor:

	£'000
Balans agoriadol ar 01/04/2021	144
Incwm a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin	18
	162
Namyn	
Grantiau a gymeradwywyd yn 2021/2022	17
Costau'r gwasanaethau cynhaliol	2
	19
Amcangyfrif o'r balans ar 31/03/2022	**143**

4. Cyllideb Refeniw – Grantiau Polisi a Ariannwyd gan y Cyngor

	Nifer y grantiau	£
Cyllideb Wreiddiol		25,100
Taliadau Grant Refeniw		
Papurau Bro	6	(3,000)
Eisteddfodau	1	(200)
Tanwariant		21,900

Mae Atodiad 2 yn nodi'r grantiau Polisi Refeniw a gafodd eu cymeradwyo a'u talu yn ystod y flwyddyn.

Asesiad Effaith Integredig:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** **Na:- gan nad yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid mewn polisi neu wasanaeth.**
Argymhelliad:	**Nodi'r grantiau a gymeradwywyd o Gronfa'r Degwm.**
Rheswm dros y penderfyniad:	**Ddim yn ofynnol**
Trosolwg a Chraffu:	**Cynllun Cymorth Grantiau a gymeradwywyd gan y Cyngor**
Fframwaith Polisi:	**Cynllun Cymorth Grantiau a gymeradwywyd gan y Cyngor**
Blaenoriaethau Corfforaethol:	**Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol**
Goblygiadau ariannol:	**O fewn y Gyllideb Bresennol**
Pwerau Statudol:	**Deddf Llywodraeth Leol 1999**
Papurau Cefndir:	**Amherthnasol**
Atodiadau:	**Amherthnasol**
Pennaeth y Gwasanaeth:	**Stephen Johnson**
Swyddog Adrodd:	**Fflur Lawlor - Cynorthwyydd Grantiau Cymunedol ac Yswiriant**
Dyddiad:	**23/05/2022**

CYNLLUN GRANTIAU CYMUNEDOL CEREDIGION COMMUNITY GRANT SCHEME

Grantiau Cyfalaf ystyriwyd / cymeradwywyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd neu Aelod Cabinet dros Wasanaethau Yr Economi ac Adfywio yn 2021/2022

Capital Grants considered / approved by Corporate Lead Officer - Finance and Procurement in Consultation with the Cabinet Member with responsibility for Finance and Procurement Services and Public Protection or Cabinet Member for Economy and Regeneration in 2021/2022.

Ymgeisydd / Applicant	Dyddiad Cymeradwywyd / Date Approved	Grant Cymeradwywyd / Grant Approved £	Grant hawliwyd / Grant claimed £
Trosglwyddwyd o / Transfer from 2020/21			
St David's Church Blaenporth	19/03/2021	19,520	19,520
Cyngor Cymuned Llansantffraed	19/03/2021	2,992	2,992
Star of the Sea Culture CIC	19/03/2021	11,725	10,970
Cardigan Squash Club	19/03/2021	12,629	6,251
Capel y Groes, Llanwnnen	19/03/2021	6,120	6,120
Capel Soar y Mynydd	19/03/2021	1,185	1,026
		54,171	**46,879**
Ceisiadau Newydd / New Applications			
St.Tydfil Church, Llechryd	19/03/2021	3,200	0
Capel Bryngwenith	19/03/2021	7,259	7,259
Salem Church Brongest	19/03/2021	3,379	3,379
Neuadd Rhydypennau Hall	19/03/2021	10,000	10000
CPD Penrhyncoch FC	19/03/2021	1,043	1,043
St. John the Baptist's Church	19/03/2021	3,617	0
Eglwys Llanfihangel y Creuddyn	19/03/2021	10,000	6,310
Capel Bethlehem Dihewyd	24/06/2021	1,950	0
Eglwys Llanarth	24/06/2021	9,975	5,500
Aberporth Village Hall	13/08/2021	25,000	0
Hen Ysgol y Ferwig	15/12/2021	2,388	2,388
Eglwys Gwenlli	15/12/2021	3,250	3,250
Ysgoldy Goch Hall	15/12/2021	25,000	0
Borth Community Council	15/12/2021	7,820	7,820
Tregaron Town Council	15/12/2021	4,562	3,122
Llanddewi Brefi Village Hall & Recreation	15/12/2021	5,100	2,550
		123,543	**52,621**
Grantiau trosglwyddwyd I / Grants transferred to 2022/2023			
Cardigan Squash Club	16/03/2022	6,378	
St.Tydfil Church, Llechryd	16/03/2022	3,200	
St. John the Baptist's Church	16/03/2022	3,617	
Eglwys Llanfihangel y Creuddyn	16/03/2022	3,690	
Capel Bethlehem Dihewyd	16/03/2022	1,950	
Ysgoldy Goch	16/03/2022	25,000	
Llanddewi Brefi Village Hall & Recreation Ground	16/03/2022	2,550	
Aberporth Community Hall	16/03/2022	25,000	
Eglwys Llanarth	16/03/2022	4,475	
		75,860	

Atodiad 2 / Appendix 2

Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion Community Grant Scheme

Grantiau Refeniw ystyriwyd / cymeradwywyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd neu Aelod Cabinet dros Wasanaethau Yr Economi ac Adfywio yn 2020/2021

Revenue Grants considered / approved by Corporate Lead Officer - Finance and Procurement in Consultation with the Cabinet Member with responsibility for Finance and Procurement Services and Public Protection or Cabinet Member for Economy and Regeneration in 2020/2021.

Ymgeisydd / Applicant	Dyddiad Cymeradwywyd / Date Approved	Grant £
Papurau Bro		
Papur Bro Y Barcud	28/05/2021	500
Papur Bro Clonc	28/05/2021	500
Papur Bro Y Tincer	28/05/2021	500
Papur Bro Y Ddolen	16/07/2021	500
Papur Bro Yr Angor	17/08/2021	500
Papur Bro Y Garthen	23/03/2022	500
Eisteddfodau		
Cymdeithas Ceredigion	03/03/2022	200
		3,200